



## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 25 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae’r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Argyfwng Costau Byw a’r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

**Gofynnir yn garedig  i glercod rhannu hwn gyda'u haelodau a'u staff**

---

## Newyddion




**Cofiwch ein diweddaru**

Byddwch i gyd wedi cynnal eich Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol (AGM) ym mis Mai erbyn hyn – felly a fyddech cystal â sicrhau bod eich clerc yn rhoi gwybod i ni enwau a manylion cyswllt eich cadeirydd newydd, ynghyd ag enwau a manylion cyswllt eich cynrychiolwyr newydd ar y pwyllgor ardal.

Mae'n hanfodol ein bod yn cadw'r wybodaeth cywir, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth perthnasol yn cael ei hanfon atynt (ac yn bwysicach fyth, nad ydym yn ei hanfon at y bobl anghywir).




Chwarae Cymru Play Wales




**Cylchlythyr Diwrnod Chwarae**

**Cylchlythyr Mis Mai**

---

**Ydych chi wedi archebu ar gyfer y Gynhadledd Genedlaethol a Seremoni Gwobrau ?**

Mae'r niferoedd yn cynyddu, felly peidiwch â'i gadael yn rhy hwyr i'w thrafod yn eich Cyngor – felly beth am ei roi ar agenda eich cyfarfod ym mis Mehefin i weld faint o bobl o'ch Cyngor fyddai'n hoffi mynychu'r digwyddiad gwych hwn.

Nid yn unig y mae siaradwyr arbennig yno, ond byddwch hefyd yn clywed am yr holl brosiectau buddugol anhygoel, sy'n ffynhonnell werthfawr iawn o syniadau ysgogol i'w cymryd yn ôl i'ch Cyngor eich hun.

**Archebwch lle**

---

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

Gweler cylchlythyr yma


Cylchlythyr

Cylchlythyr

Digwyddiadau

## Werth ffeindio amser i'w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:




**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.

Rydym yn adolygu’r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i


gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

**Mwy o Fanylion**

.......................

## Nodiadau Datblygu Ymarfer:



Un Llais Cymru
One Voice Wales
Amdanom Ni · Aelodaeth · Gwasanaethau · Hyfforddiant · Digwyddiadau

Gwasanaeth

Nodiadau Datblygu Ymarfer

Mae Un Llais Cymru wedi paratoi cyfres o ganllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall rhai o'r gwaith pwysig y dylid ei wneud bob blwyddyn.

Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi cyngor ar waith arall a wneir gan Gynghorau. Rydym yn galw'r canllawiau hyn yn Nodiadau Datblygu Ymarfer. Mae rhestr yn ymddangos isod.

Mae pob Nodyn yn rhoi arweiniad syml i egluro'r pwyntiau allweddol. Nid ydynt yn gosod canllaw cynhwysfawr i ddeddfwriaeth. Dylai clercod ymgynghori â'u Swyddog Datblygu am unrhyw gyngor neu gymorth pellach mewn perthynas ag achosion unigol.

Cliciwch ar y dolenni i ddarllen pob Nodyn Datblygu Ymarfer isod:

2023/24

- (1) Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol

### Nodiadau Datblygu Ymarfer


Rydym bob amser yn ceisio gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio, er mwyn darparu gwasanaeth gwell i Gynghorau.

Mae ein tudalennau gwe yn cynnwys copïau o'r holl Nodiadau Datblygu Ymarfer. Rydym yn annog Clercod i rannu'r wybodaeth yma gyda'i Cynghorwyr.

Rydym wedi adolygu fformat y Nodiadau Datblygu Ymarfer i wella eu cynllun. Rydym wedi safoni'r ffontiau, trefnu'r tablau, ac yn gyffredinol eu gwneud yn haws i'w darllen. Dylech ddechrau gweld y newidiadau hyn yn dod i rym ym mis Mehefin 2026. Rydym hefyd wedi adolygu sut maent yn ymddangos ar ein gwefan.

**Nodau Datblygu Ymarfer i gyd iw gweld yma**

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:




**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch 3 clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol**

Cliciwch yma i llogi lle


**Canslo Hyfforddiant**

Mae ein rhaglen hyfforddi yn ffynnu, ac mae llawer o Gynghorau yn manteisio ar y nifer o leoedd rhad ac am ddim sydd ar gael i'w mynychu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gweld cynnydd yn nifer y rhai nad ydynt yn mynychu (ac mae'r rhain yn bennaf ar gyfer y cyrsiau lleoedd am ddim).

A allwn ni atgoffa unigolion, er efallai nad yw'n costio i'ch Cyngor i chi fynychu gan ddefnyddio lle am ddim, bod y costau hynny'n dal i gael eu talu drwy arian cyhoeddus. Wrth gwrs, mae yna resymau dilys pam na all rhai bobl fynychu, ond gobeithiwn nad oes unrhyw gysylltiad lle mae pobl yn meddwl bod, gan ei fod yn rhad ac am ddim, ddim ots os nad ydynt yn troi i fyny.

## SWYDDI

### Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:



Un Llais Cymru One Voice Wales — Amdanom Ni · Aelodaeth · Gwasanaethau · Hyfforddiant · Digwyddiada

Cyfleoedd

Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref

Fel rhan o'n haelodaeth flynyddol, rydym yn cynnig cyfle i'n Haelodau Cynghorau Cymuned a Thref hysbysebu unrhyw swyddi gwag sy'n gysylltiedig â'r sector gyda ni. Rydym yn annog Cynghorau i ddefnyddio'r adran Swyddi Gwag hon i hysbysebu swyddi gweigion gan gynnwys Clerc, Swyddogion Ariannu Cyfrifol, a staff eraill sydd eu hangen yn eu Cynghorau.

Mae'r swyddi gwag diweddaraf yn ymddangos isod:

Cyngor Tref y Barri: Prif Swyddog (Clerc y Dref)

Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch – Clerc y Plwyf a Swyddog Cyllid Cyfrifol – Dyddiau cau 5yh ar 30ain o Fehefin 2025

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gweler pob swydd gwag yma**

**Mwy o Fanylion**

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am gynrychiolydd i Gymru ar y Panel Ymgynghorol Arbenigol

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:



## Cadwch y Dyddiad

**Cynhadledd Cenedlaethol a Seremoni Gwobrau Un Llais Cymru**

1af GORFFENNAF 2026


**Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru**

30ain MEDI 2026

# Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan Un Llais Cymru:

## Newyddion am Brosiect Argyfwng Costau Byw

### Paratoi Eich Trigolion ar gyfer y Newid i Linellau Ffôn Digidol



Wrth i'r DU symud i system ffôn ddigidol newydd erbyn diwedd 2027, gall rhai trigolion hŷn a mwy agored i niwed wynebu heriau ychwanegol yng nghanol pwysau costau byw parhaus, yn enwedig lle gallai larymau personol neu offer ffôn hŷn gael eu heffeithio. Anogir trigolion i weithredu'n gynnar fel nad ydynt yn cael eu dal allan gan y newidiadau.

Rydym yn rhannu rhestr wirio syml i drigolion ar dudalen Cymunedau Oed Gyfeillgar er mwyn i gynghorau ei rhannu gyda'u cymunedau.

Darllenwch Fwy

------------------------------

## Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

### Dwli am Draenen wen



Draenen wen yw asgwrn cefn gwrychoedd y DU, gan ffurfio tua 70% o'u strwythur. Er gwaethaf ei phwysigrwydd, nid yw ei gwydnwch i blâu, clefydau a newid hinsawdd yn cael ei ddeall yn dda. I helpu i fynd i'r afael â hyn gallwch gymryd rhan yn rhaglen monitro draenen wen Cyngor y Coed. Am ragor o wybodaeth, ewch i: Hawthorn Sampling Protocol - The Tree Council

## Blodau Diderfyn Mehefin



Da iawn i bawb a gymerodd ran ym mis Mai Di-dor! Gall newidiadau syml i arferion torri gwair dod â manteision enfawr i blanhigion ac anifeiliaid sy'n llawn gweithgaredd ar yr adeg hon o'r flwyddyn, ac sydd angen gwneud y gorau o bob ffynhonnell fwyd sydd ar gael. Beth am barhau i mewn i 'Blodau diderfyn Mehefin'? Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth yr effaith gadarnhaol gall newid arferion torri gwair gael ar natur.

## Cyfres gweminarau y 5 Colofn Gweithredu Dros Natur




Mae ein gweminarau nesaf ar y gweill...

9.6.26 @11am
**Colofn 2 - Darparu Porthiant**
16.6.26 @11am
**Colofn 3 - Darparu Dŵr**
23.6.26 @11am
**Colofn 4 - Creu Cysylltiadau**
30.6.26 @11am
**Colofn 5 - Lledaenwch y Neges**

Cliciwch yma i gael gwybod mwy a bwcio'ch lle am ddim: **5 Colofn**

## Adroddiadau Adran 6



Nodyn atgoffa i bob cyngor sydd heb wneud eto, i anfon copi o'ch adroddiad Adran 6 i bioamrywiaeth@unllaiscymru.cymru fel y gellir eu lanlwytho i wefan Bioamrywiaeth Cymru. Mae cymorth a chyngor ar gwblhau eich adroddiad Adran 6 ar gael ar ein gwefan.

**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24c Stryd Y Coleg,

Rhydaman

SA18 3AF

Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru . Dylid nodi os ydych yn dad tanysgrifio mi fyddwch yn colli mynediad i'r ddau fersiwn Cymraeg a Saesneg a'r cylchlythyr . Cysylltwch a kbrown@unlliascymru.cymru am cymorth efo hyn.

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite